Ysgol Hamadryad

Polisi Addoliad Cyhoeddus

Angor cadarn cyn hwylio'r don

Pennaeth:	Mrs Rhian Carbis
Cadeirydd y Llywodraethwyr:	Dr Dafydd Trystan

Dyddiad y Polisi Gwreiddiol: Mai 2018

Cyfrifoldebau: Pennaeth, pob aelod o staff a'r Llywodraethwyr

Dyddiad Adolygu: Mai 2019, Tachwedd 2020

Dyddiad Adolygu Nesaf: Tachwedd 2021

Ysgol Hamadryad

Polisi Addoliad Cyhoeddus

1 Nod ac amcan

1.1 Nod ac amcan addoliad cyhoeddus yw:

- rhoi'r cyfle i'r plant i addoli Duw;
- galluogi'r plant i ystyried materion ysbrydol a moesol;
- galluogi'r plant i archwilio eu credoau eu hunain;
- annog ymateb a chyfranogiad;
- magu ymdeimlad o ysbryd cymunedol;
- hybu ethos a gwerthoedd cyffredin ac atgyfnerthu agweddau cadarnhaol;
- dysgu sut i addoli.

2 Addoliad cyhoeddus

2.1 Credwn bod addoliad yn weithred neu'n achlysur arbennig, gyda'r bwriad o ddangos parch i Dduw. Mae addoliad cyhoeddus yn cynnwys yr ysgol gyfan yn dod at ei gilydd i gymryd rhan mewn gwasanaeth. Disgwyliwn i bawb gymryd rhan weithredol yn y gwasanaeth.

2.2 Yn unol â Deddf Diwygio Addysg 1988, sy'n datgan y dylai addoliad cyhoeddus mewn ysgolion fod yn 'gyfangwbl neu'n bennaf o natur Gristnogol', rydyn ni fel arfer yn selio ein gwasanaethau ar ddysgeidiaeth Crist ac ar draddodiadau'r Eglwys Gristnogol. Ond, rydyn ni'n cynnal ein gwasanaethau mewn modd sy'n rhoi ystyriaeth ofalus i gredoau holl aelodau'r ysgol.

2.3 Tra bo'r mwyafrif o'n gwasanaethau yn Gristnogol, rydyn ni hefyd yn cynnal gwasanaethau sy'n adlewyrchu'r traddodiadau crefyddol eraill a gynrychiolir yn yr ysgol a thu allan.

3 Trefniadaeth addoliad cyhoeddus

3.1 Rydyn ni'n cynnal addoliad cyhoeddus yn ddyddiol yn yr ysgol. Cynhelir gwasanaeth i'r ysgol gyfan ar brynhawn Llun a phrynhawn dydd Gwener. Cynhelir gwasanaethau Adran Meithrin i Flwyddyn 2 ac Adran Blynyddoedd 3 i 6 ar ddyddiau Mercher, ac yna gwasanaeth dosbarth ar ddydd Mawrth ac Iau.

3.2 Rydyn ni'n cynnal ein gwasanaethau mewn ffordd urddasol a pharchus. Rydyn ni'n dweud wrth y plant bod amser gwasanaeth yn amser tawel i ymlonyddu ac ystyried. Ystyriwn ei fod yn amser arbennig a disgwyliwn i'r plant ymddwyn mewn ffordd briodol. Gofynnwn iddynt fod yn dawel, i fyfyrio a gwrando'n ofalus ar yr hyn sy'n cael ei ddweud, ac i gyfranogi'n llawn yn y weddi a'r emynau. Rydyn ni'n creu awyrgylch briodol trwy ddefnyddio cerddoriaeth ac weithiau defnyddiwn ganhwyllau neu arteffactau fel ffocws i sylw'r plant.

3.3 Y pennaeth neu aelod o'r staff sydd fel arfer yn cynnal y gwasanaeth, ond ar adegau rydyn ni'n gwahodd gweinidogion lleol neu gynrychiolwyr crefyddol eraill i'w cynnal.

3.4 Daw ein themau o draddodiadau'r ffydd Gristnogol, ac rydyn ni'n aml yn ystyried gwyliau a digwyddiadau'r calendr Cristnogol. Weithiau mae ein themau yn adlewyrchu ac yn adeiladu ar bynciau o gwricwlwm yr ysgol. Rydyn ni'n cynllunio'n gwasanaethau fel rhan o gyfres o themau yn ddigon pell ymlaen llaw.

3.5 Mae ein gwasanaethau yn adlewyrchu cyrhaeddiadau ac addysg y plant. Rydyn ni'n annog y plant i gyfranogi yn y gwasanaethau wrth iddynt ddangos eu gwaith i weddill y disgyblion a chodi materion y maent wedi eu trafod yn y dosbarth. Mae'r gwasanaethau yn rhoi cyfle i wobrwyo a chydnabod gwaith da neu gyrhaeddiadau uchel y plant yn yr ysgol a'r tu allan i'r ysgol. Mae hyn yn fodd o hybu ethos yr ysgol, sef bod pob plentyn yn werthfawr a bod pob cyrhaeddiad yn cael ei chydnabod. Mae Ysgol Hamadryad yn ysgol lwyddiannus ac fe ddathwn lwyddiant ein plant yn y gwasanaethau.

3.6 Unwaith y flwyddyn rydyn ni'n gwahodd rhieni i wasanaeth dosbarth eu plentyn. Rydyn ni'n eu hannog i fynychu. Mae hyn yn hybu ysbryd cymunedol yn yr

ysgol ac mae'n ffordd ymarferol o ddangos bod y cartref a'r ysgol yn cydweithio er mwyn annog y plentyn i ymgyrraedd.

3.7 Mae croeso i'r llywodraethwyr i ymweld â'n gwasanaethau ar unrhyw adeg.

4 Yr hawl i eithrio

4.1 Rydyn ni'n disgwyl i bob plentyn i fynychu'r gwasanaeth. Ond, gall unrhyw riant wneud cais i eithrio plentyn o addoliad cyhoeddus, a bydd yr ysgol yn sicrhau bod trefniadau yn cael eu gwneud i oruchwilio'r plentyn yn ystod yr amser hwn. Nid oes rhaid i rieni esbonio paham eu bod am wneud hyn. Mae hyn yn unol â Deddf Addysg 1944 ac fe'i atgyfnerthwyd yn Neddf Diwygio Addysg 1988.

4.2 Mae'r pennaeth yn cadw rhestr o'r plant sy'n cael eu heithrio o addoliad cyhoeddus.

5 Monitora ac adolygu

5.1 Etholwyd un aelod o'r corff llywodraethol i fod yn gyfrifol am addysg grefyddol ac addoliad cyhoeddus, a chyfrifoldeb y person hwnnw yw monitora'r polisi addoliad cyhoeddus a'r modd y caiff ei weithredu. Mae'r llywodraethwr hwn yn trafod gyda'r pennaeth cyn adrodd yn ôl i'r corff llywodraethol.

Llofnodwyd Cadeirydd y Llywodraethwyr:

Llofnodwyd Pennaeth: Rh. Corbis

Dyddiad: Tachwedd 2020